**GWERS 114**

**CYFLWYNYDD: CENNARD DAVIES**

**NOD: Trafod digwyddiadau yn y gorffennol - parhad.**

Geirfa

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| dringo | - | to climb | edrych ar | - | to look at |
| nofio | - | to swim | astudio | - | to study |
| darlledu | - | to broadcast | gwylio adar | - | to birdwatch |
| gwylio | - | to watch | gwersylla | - | to camp |
| marchogaeth | - | to (horse) ride | merlota | - | to pony treck |
| barcuta | - | to hang glide | brigdonna | - | to surf |
| hamddena | - | to take one's leisure | segura | - | to idle |
| cymydog | - | neighbour | cymdogion | - | neighbours |
| Gwlad Belg | - | Belgium | Gwlad yr Iâ | - | Iceland |
| Gwlad Groeg | - | Greece | Y Ffindir | - | Finland |
| Y Cyfandir | - | the Continent | | | |

**RHAN 1**

1. As with all Past Tense questions, the **Yes / No** replies to direct Past Tense questions are always

**Do** - **Yes**
**Naddo** - **No**

**Fuest ti** yn Nantes? - **Do**.
- **Were you / Have you been / Did you go** to Nantes? - **Yes**.

**Fuon nhw** yng ngwlad Belg? - **Do**.
- **Were they / Did they go to / Have they been** in Belgium? - **Yes.**

**Fuodd y plant** yn nofio? - **Naddo**.
- **Did** the children swim? - **No.**

**Fuoch chi**'n dringo? - **Naddo**.
- **Were you / Did you** climb(ing)? - **No**.

**Fuest ti** yn yr Eidal yn ddiweddar? - **Do**, fis yn ôl.
- **Were you** / **Did you go to** / **Have you been in** Italy recently? - **Yes**, a month ago.

**Fuodd Basil** yn America? - **Do**.
- **Did** Basil **go / Was** Basil / **Has** Basil **been** in America? - **Yes.**

**Fuoch chi**'n crwydro o gwmpas? - **Naddo**.
- **Did you tour** / **Were you touring**? - **No.**

2. When '**yn'** is merely a linking word with no translatable value, it is often abbreviated to **'n** after a vowel

Mae**'n** oer.
Fuoch chi**'n nofio**?
Roedd hi**'n** denau.

But if **'yn'** conveys the preposition **'in'** then it is NEVER abbreviated, even after a vowel.

Fuoch chi **yn** yr Eidal?
Fe fuon ni **yn** Ffrainc y llynedd.

It sometimes changes its form to '**ym'** or '**yng'** of course

Fe fuon ni **ym M**angor.
Fuoch chi **yng Ngh**aernarfon?

## RHAN 2

1. The negative forms pose no problems - as with other Past Tense verbs, drop the **'Mi / Fe'** and add **'ddim'**

**Fe / Mi** fues i yn yr Almaen.
Fues i **ddim** yn yr Almaen.

**Fe / Mi** fuon nhw'n barcuta.
Fuon nhw **ddim** yn barcuta.

**Fues i ddim** dramor eleni.
**- I didn't go / haven't been** abroad this year.

**Fuon ni ddim** ar y Cyfandir.
**- We didn't go / haven't been** on the Continent.

**Fuodd y plant ddim** yn Disney World.
- **The children didn't go / haven't been** in Disney World.

2. And we can add another verb to the '**bues**' forms to express the Past Tense.

Fuon ni ddim **yn nofio** yn y môr.
- We didn't **swim** in the sea.

Fuon nhw ddim **yn brigdonna**.
- They didn't **surf**.

Fuodd y plant ddim **yn barcuta**.
- The children didn't **hang glide**.

Fues i ddim **yn segura** - fe fues i'n brysur iawn.
- I didn't **idle (take it easy)** - I was very busy.

3. Other question words are familiar to you

**Gyda phwy** buest ti'n merlota? - Gyda'r plant.
- **With whom** did you go / were you pony trekking? - With the children.
**Gyda phwy** buodd y plant yn chwarae?
- **With whom** did the children play?

**Pryd** buon nhw ar eu gwyliau? - Ym mis Awst.
- **When** did they go / were they on holiday? - In August.

**Pryd** buest ti'n brigdonna ddiwetha'?
- **When** did you surf (go surfing) last?